

## **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Aneurin Bevan/Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Aneurin  
Bevan/Wardiau Ebbw a Thyleri

Dyddiad arolygu: 7 ac 8 Awst  
2018

Dyddiad cyhoeddi: 9 Tachwedd  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	30
4.	Beth nesaf? .....	36
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	37
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	38
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	39
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	40

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

**Rhoi sicrwydd:**

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Aneurin Bevan sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 7 ac 8 Awst 2018. Ymwelwyd â'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Ebbw
- Ward Tyleri

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC (gydag un yn arwain yr arolygiad), dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd y gymuned leol oedd yn cael ei gwasanaethu gan Ysbyty Aneurin Bevan yn cael budd o wasanaethau ysbyty a oedd yn cael eu darparu gan dimau ward ac amlddisgyblaethol hirsefydledig a oedd bob amser yn ceisio gwella'r hyn roeddent yn ei wneud, er mwyn hybu lles cleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn canu clodydd y staff oedd ynghlwm wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth
- Cafodd y timau ar y wardiau a'r staff rheoli eu canmol am eu hymdrechion i annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, i'r graddau roedd eu cyflwr gofal iechyd yn eu galluogi i wneud hynny
- Roedd y cleifion yn cael cymorth priodol ac yn cael eu monitro adeg prydau bwyd
- Gwelsom dystiolaeth o weithdrefnau arwain a rheoli cryf a chyson ar y ddwy ward ac ymhlith y tîm ehangach o uwch-nyrsys a rheolwyr yn yr ysbyty.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau ar Ward Ebbw gyda'r nos
- Hyfforddiant ac eglurder rolau a chyfrifoldebau o ran nyrsys asiantaeth
- Hyfforddiant statudol a gorfodol i staff parhaol ar y wardiau

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei sefydlu ar 1 Hydref 2009, ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r GIG i bobl sy'n byw ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys. Amcangyfrifir bod y bwrdd iechyd yn gwasanaethu dros 639,000 o bobl, sef tua 21 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi dros 13,000 o staff, gyda dwy ran o dair ohonynt yn gyfrifol am ddarparu gofal uniongyrchol i gleifion.

Lleolir Ysbyty Aneurin Bevan ar gyrion canol tref Glynebwy.

Mae gan yr ysbyty 96 o welyau ar gyfer cleifion mewnol, ynghyd ag uned iechyd meddwl i oedolion. Caiff y cleifion sy'n cael eu derbyn i un o'r tair ward gymunedol ofal mewn ystafelloedd unigol sydd â chyfleusterau en-suite. Hefyd, ceir ystafelloedd dydd ar y wardiau ynghyd â gerddi lle gall y cleifion dreulio amser gyda theulu a ffrindiau.

Mae gan yr ysbyty adran cleifion allanol, ynghyd ag uned mân anafiadau bwrpasol, gwasanaethau cymorth diagnostig (er enghraifft, pelydrau-X) ac adran therapiau gynhwysfawr.

#### Ward Ebbw

Mae'r ward hon yn darparu gofal i gyfuniad o 32 o gleifion sy'n ddynion a menywod mewn ystafelloedd unigol, fel y nodir uchod. Mae'r ward yn un adsefydlu orthopedig benodol; fodd bynnag, yn gyffredinol mae tîm y ward yn darparu gofal a chymorth i gleifion ag ystod eang o anghenion a threfniadau rhyddhau cymhleth. Ar adeg ein harolygiad roedd 32 o gleifion yn derbyn gofal.

#### Ward Tyleri

Mae gan ward Tyleri 32 o ystafelloedd unigol i gleifion hefyd. Fodd bynnag, ers y llynedd (2017), dim ond uchafswm o 16 o gleifion, y mae eu hiechyd

cyffredinol yn cael ei ystyried yn sefydlog, a all dderbyn gofal yn y rhan hon o'r ysbyty, fel rhan o gynllun peilot sydd wedi'i gynllunio. Mae'r cynllun peilot, a gaiff ei arwain gan Uwch-ymarferwyr Nyrsio<sup>1</sup>, wedi cael ei werthuso'n ddiweddar; cyflwynwyd achos busnes i'r bwrdd iechyd gyda'r nod o ariannu a chynnal y math hwn o ofal yn y tymor hwy. Ar adeg ein harolygiad, roedd 15 o gleifion yn derbyn gofal.

DRAFT

---

<sup>1</sup> Mae Uwch-ymarferwyr Nyrsio wedi'u hyfforddi i hybu iechyd cleifion a'i gynnal drwy ddiagnosio a thrin salwch aciwt a chyflyrau cronig. Mae cysylltiad agos rhwng rhai o'u dyletswyddau a rhai meddygon.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Clywsom nifer o sylwadau cadarnhaol a chanmoliaeth gan y cleifion ynghylch y ffordd roedd y staff yn darparu gofal, triniaeth a chymorth. Hefyd, roedd yn amlwg bod y staff yn parchu dewisiadau'r cleifion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl.

Gwelsom fod y cleifion a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan reolwyr a thimau cyfeillgar, tosturiol a phroffesiynol ar y wardiau.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cafodd cyfanswm o 12 eu cwblhau (pedwar ar Ward Tyleri ac wyth ar Ward Ebbw). Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion a pherthnasau yn ystod yr arolygiad.

Nododd un claf nad oedd unrhyw beth byth yn ormod o drafferth i'r rhan fwyaf o'r staff, er y byddai wedi hoffi cael ychydig mwy o wybodaeth am ei ofal presennol. Ymhlith sylwadau'r cleifion eraill roedd y canlynol:

*"Mae'r gofal yn wych – ni allaf feddwl am ffordd o'i wella"  
(Tyleri)*

*"Mae pawb yn gyfeillgar, yn gymwynasgar ac yn brysur iawn" (Tyleri)*

*"Mae'r staff yn mynd gam ymhellach. Ond mae lefelau staffio gyda'r nos yn wael. Rwy'n poeni, os byddai rhywbeth difrifol yn digwydd, na fyddai'r staff yn gallu ymdopi" (Ward Ebbw)*

*"Mae'r staff mor gyfeillgar. Mae'n hawdd mynd atynt a thrafod unrhyw fater. Mae hyn hefyd yn wir am y staff cronfa"  
(Ward Ebbw)*

Cafodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu gwahodd i sgorio'r gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael, ar raddfa o 0 i 10 (gyda 10 yn ardderchog). Rhoddodd tri chlaf sgôr o 9, gyda'r gweddill yn rhoi sgôr o 10.

## **Cadw'n iach**

Materion cyffredinol

Gwelsom fod gorsafoedd gel saniteiddio ar gyfer y dwylo at ddefnydd y staff ac ymwelwyr wrth fynedfa'r ddwy ward a holl ystafelloedd y cleifion. Roedd hyn yn golygu bod pwyslais yn cael ei roi ar atal a rheoli heintiau.

Roedd gan y ddwy ward amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd, a gwybodaeth berthnasol yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymunedol, y gallai'r cleifion, eu teuluoedd ac ymwelwyr eu cymryd i gyfeirio atynt yn y dyfodol.

Nid oedd hawl ysmygu yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys e-sigaréts. Roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth Mangreoedd Di-fwg<sup>2</sup>.

## **Gofal gydag urddas**

Materion cyffredinol

Gwnaeth y staff siarad â'r cleifion, a'i gilydd, mewn ffordd gymwynasgar a pharchus drwy gydol ein harolygiad dau ddiwrnod. Hefyd, roedd y staff yn cyflwyno eu hunain cyn helpu pob claf.

Gallem gadarnhau bod y staff yn parchu cyfrinachedd wrth gyfathrebu â'u cleifion; roedd y ffaith bod trafodaethau yn cael eu cynnal yn eu hystafelloedd eu hunain, heb fod pobl eraill gerllaw, yn helpu i sicrhau hyn.

Roedd anghenion ymataliaeth y cleifion yn cael eu hasesu; cawsai cynlluniau gofal eu rhoi ar waith yn ôl yr angen.

Gwelsom fod arwyddion yn cael eu rhoi ar ddrysau ystafelloedd y cleifion er mwyn rhybuddio eraill i beidio â dod i mewn os oedd gofal personol yn cael ei ddarparu.

---

<sup>2</sup> Deddfwriaeth Mangreoedd Di-fwg (Cymru) 2007.

Roedd y cleifion i'w gweld yn cael gofal da; roedd y staff yn eu hannog ac yn eu cynorthwyo i wisgo dillad dydd lle bo'n briodol. Roedd hyn yn helpu'r cleifion gyda'u therapiau dyddiol ac yn eu paratoi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Gallem gadarnhau bod dewis enwau'r cleifion yn cael eu defnyddio.

Roedd gan holl ystafelloedd y cleifion a'u cyfleusterau en-suite gloch y gallent ei chanu os oedd angen cymorth arnynt. Os aseswyd na allai claf ddefnyddio'r gloch, rhoddwyd trefniadau ar waith i gadw llygad arnynt yn rheolaidd. Roedd hyn yn gweithio'n dda yn ystod y dydd.

Roedd yr enghreifftiau uchod ymhlith nifer a wnaeth roi sicrwydd i ni fod y cleifion a'u teuluoedd yn cael eu trin gydag urddas, tosturi a charedigrwydd.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Materion cyffredinol

Roedd taflenni croeso ar gael ar y ddwy ward i helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall y gofal a oedd yn cael ei ddarparu.

Hefyd roedd gwybodaeth i'w gweld ar fwrdd pwy yw pwy, gyda manylion rhai o aelodau timau'r wardiau.

Gallem gadarnhau bod byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion (PSAG<sup>3</sup>) yn cael eu defnyddio ar y wardiau a arolygwyd. Roedd y ddau yn darparu gwybodaeth amserol a hygyrch, a gawsai ei diweddarau'n rheolaidd, am gyflyrau a gofal y cleifion, yn ogystal â nodi hynt trefniadau rhyddhau a chymorth ar gyfer hynny. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n feunyddiol gan dimau amlddisgyblaethol.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Materion cyffredinol

Nododd y 12 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael cynnig cyfathrebu â staff yn eu dewis iaith.

---

<sup>3</sup> Mae bwrdd safonol Cipolwg ar Statws Cleifion (PSAG) yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty er mwyn arddangos gwybodaeth bwysig am gleifion.

Gwelsom fod arwyddion clir i helpu'r cleifion a'u perthnasau i gyrraedd a gadael y wardiau yr ymwelwyd â nhw.

Roedd cloc wedi cael ei osod ar wal holl ystafelloedd y cleifion fel eu bod yn gwybod pa amser o'r dydd neu'r nos oedd hi.

Gallem gadarnhau bod system effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth electronig glir am agweddau allweddol ar ofal y cleifion yn cael ei rhannu rhwng y staff wrth i bob sifft 12 awr newid.

Ward Ebbw

Gwnaeth un o'r cleifion y gwnaethom siarad ag ef ganu clodydd un meddyg am dreulio amser yn trafod ei gynllun gofal a'i broblemau iechyd gydag ef. Dywedodd yr un claf fod sgysiau fel hyn wedi ei helpu i deimlo'n fwy hyderus am ei ddyfodol.

## **Gofal amserol**

Materion cyffredinol

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael digon o amser, ar y cyfan, i ddarparu gofal amserol i'r cleifion yn ystod y dydd. Hefyd, dywedwyd bod nifer y staff oedd ar y ward yn ystod y dydd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y cleifion oedd yn eu gofal.

Gallai'r staff gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau clinigol cyfredol a pherthnasol yn hawdd i'w helpu i ddarparu gofal i'r cleifion.

Roedd y ddwy ward a arolygwyd gennym yn defnyddio rowndiau bwriadol<sup>4</sup> i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gallem gadarnhau hyn drwy edrych ar gofnodion gofal a siarad â chleifion unigol.

Datgelodd ein trafodaethau â'r uwch reolwyr fod y cyfnod o amser roedd cleifion yn aros yn yr ysbyty ar gyfartaledd wedi lleihau o 58 diwrnod (tua thair blynedd yn ôl), i 15. Golygai hyn fod y cleifion yn wynebu llawer llai o risg o ddal heintiau

---

<sup>4</sup> Mae rowndiau bwriadol yn weithdrefn strwythuredig lle bydd nyrsys yn mynd o amgylch gan asesu a rheoli anghenion gofal sylfaenol cleifion ar adegau penodol.

sy'n gysylltiedig â bod mewn ysbyty, roedd i wellhad cleifion bwyslais penodol ac roedd yn fwy effeithiol, ac roedd y gwelyau mewn ysbytai cyffredinol dosbarth lleol yn cael eu defnyddio'n well ar gyfer cleifion â salwch aciwt.

Dywedodd nifer fach o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod adegau lle byddent yn canu'r gloch am gymorth, ond na allai'r staff ymateb mewn modd amserol. Fodd bynnag, gwnaeth y cleifion hefyd nodi y byddai'r staff yn ymateb yn gyflym i ddechrau gan egluro os byddai unrhyw oedi.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Materion cyffredinol

Disgrifiodd y staff y ffordd roedd y cleifion wedi chwarae rhan weithredol yn nathliadau 70 mlynedd y GIG, a gynhaliwyd yn yr ysbyty. Roedd hyn wedi cynnwys bod yn bresennol adeg ymweliad gan aelodau o'r Teulu Brenhinol a mynd i barti ar y safle.

Hefyd, disgrifiodd prif nyrsys y wardiau y ffordd roedd y cleifion wedi gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau rheolaidd yn yr ysbyty (yn ôl yr hyn roeddent yn dymuno ei wneud a lle gallent wneud hynny). Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Therapi canu
- Therapi anifeiliaid anwes
- Hel atgofion digidol (lle byddai plant ysgol yn annog y cleifion i ddysgu sut i ddefnyddio'r rhyngwyd)
- Boreau coffi Macmillan
- Parti gardd blynyddol
- Gweithgareddau grŵp (gyda chymorth y staff a gwirfoddolwyr).

Gwelsom dystiolaeth o rai o'r digwyddiadau diweddar hyn ar ffurf lluniau oedd yn cael eu harddangos ar y wardiau ac ym mhrif dderbynfa'r ysbyty.

Hefyd, cawsom wybod am fentrau eraill oedd yn cael eu cynllunio at y dyfodol er mwyn adeiladu ar y cydweithio llwyddiannus rhwng yr ysbyty a'r gymuned a welwyd eisoes, er budd y cleifion hynny sy'n derbyn gofal. Roedd un enghraifft o'r fath yn ymwneud â threfnu menter gymdeithasol gydag ysgol leol, lle byddai'r disgyblion yn ymweld â'r cleifion gyda throli oedd yn cynnwys papurau

newydd, llyfrau a byrbrydau. Roedd un arall yn ymwneud â digwyddiad cerddorol a fyddai'n cael ei drefnu ar dir yr ysbyty. Gwnaeth y tîm arolygu ganmol staff yr ysbyty am eu holl ymdrechion i wella ansawdd bywyd y cleifion, yn ogystal â gwella eu lles corfforol ac emosiynol cymaint â phosibl.

Gwelsom fod llyfrynnau Dyma Fi<sup>5</sup> yn cael eu cwblhau ar gyfer cleifion fel y bo'n briodol.

Hefyd, gwelwyd tystiolaeth wedi'i chofnodi o waith asesu parhaus, gofal unigol a chynllunio i ryddhau cleifion gan dimau aml-ddisgyblaethol hirsefydledig, a oedd yn cynnwys pawb oedd yn berthnasol i ofal parhaus a thymor hwy y cleifion.

Gwelsom staff ffisiotherapi yn helpu cleifion ar y wardiau ar adegau gwahanol o'r dydd; roedd cymhorthion symudedd yn cael eu gosod o fewn cyrraedd hawdd iddynt. Hefyd, roedd anghenion a gofynion symudedd y cleifion yn cael eu rhannu â holl staff y wardiau; cawsai'r wybodaeth hon ei chadw'n ddiogel yn ystafell pob claf. Roedd hyn yn golygu y gallai timau'r wardiau barhau i gynorthwyo'r cleifion yn ddiogel ac, fel roedd ei angen, rhwng ymweliadau ffisiotherapi.

Gallem gadarnhau bod y cleifion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i wisgo eu cymhorthion clyw a'u sbectol darllen/pellter. Roedd hyn yn eu helpu i gyfeiriadu eu hunain ac i fod yn annibynnol.

Roedd gan yr ysbyty grŵp o wirfoddolwyr hirsefydledig a dreuliai amser gyda chleifion unigol yn cadw cwmni iddynt ac yn eu cynorthwyo. Byddai'r gwirfoddolwyr yn cyfarfod ag uwch reolwr o fewn yr ysbyty bob wyth wythnos er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon ar yr hyn roedd disgwyl iddynt ei wneud. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn cael eu defnyddio i drafod anghenion y cleifion a ffyrdd o wella eu profiadau yn yr ysbyty cymaint â phosibl. Gwnaeth y tîm arolygu ganmol staff yr ysbyty am gymryd y camau hyn.

---

<sup>5</sup> Mae Dyma Fi yn ffurflen all gael ei defnyddio i ddarparu manylion am berson sy'n byw gyda dementia. Mae'n cynnig ffordd hawdd ac ymarferol o gofnodi pwy yw'r person. Mae'r ffurflen yn cynnwys gofod i roi manylion am gefndir diwylliannol a theuluol y person; digwyddiadau, pobl a lleoedd o'i fywyd; yr hyn sy'n well ganddo, ei arferion bob dydd a'i bersonoliaeth.

Gwelsom fod penderfyniadau unigol ynghylch Peidiwch â Dadebru<sup>6</sup> wedi'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion; roedd y rhesymau dros y penderfyniadau hyn yn glir ac wedi'u gwneud yn unol â'r canllawiau cyfredol.

## Hawliau pobl

### Materion cyffredinol

Gwnaethom siarad â'r staff a gweld bod amseroedd ymweld rhwng 11am ac 8pm bob dydd fel rheol, ar wahân i gyfnod tawel rhwng 3 a 5pm er mwyn sicrhau bod cyfle i'r cleifion orffwys cyn eu sesiynau therapi. Fodd bynnag, cawsom wybod hefyd y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal â chleifion unigol a'u teuluoedd ynghylch amseroedd ymweld. Gwnaed hyn o ran amgylchiadau personol a'r hyn a oedd yn well gan y claf o ran ei gefnogi, er mwyn sicrhau bod yr amseroedd ymweld yn ddigon hyblyg.

Gwelsom dystiolaeth wedi'i chofnodi fod perthnasau wedi'u cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau gofal unigol cleifion. Golygai hyn fod pwyslais clir ar sicrhau bod y cleifion yn parhau i gynnwys y teulu, yn ôl eu dymuniad.

Gwnaeth trafodaethau ag uwch reolwr dynnu sylw at y ffaith y gallai teuluoedd gael gwely dros dro ar adegau, os oedd angen iddynt aros gyda'r aelod o'r teulu am fod ei iechyd yn gwaethygu, neu fod cytundeb â'r claf o ran cynnig cymorth ychwanegol.

Dywedodd y staff wrthym fod modd iddynt ddefnyddio'r ystafell staff, neu un o'r ystafelloedd dydd, os oedd angen siarad â pherthnasau'n breifat. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau preifatrwydd a diogelu cyfrinachedd cleifion.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus i fynd at uwch aelod o'r staff petai ganddynt unrhyw bryderon.

## Gwrando a dysgu o adborth

### Materion cyffredinol

---

<sup>6</sup> Tybir y cymerir camau dadebru yn achos pob claf a dderbynnir i'r ysbyty sy'n cael ataliad cardioanadlol. Oni fydd gorchymyn 'peidiwch â dadebru' (DNAR) dilys neu gyfarwydddeb ymlaen llaw (a elwir yn ewyllys byw weithiau) mewn bodolaeth, dylid ceisio dadebru pob claf.

Disgrifiodd y staff eu hymdrechion i ddelio â phryderon claf neu berthynas yn y fan a'r lle. Byddai pryderon a godwyd ar lafar yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r claf weithiau, ond nid bob tro. Felly, dywedwyd wrth staff y wardiau fod angen mynd i'r afael â hyn. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod modd i unrhyw themâu neu sefyllfa ailadroddus o ran y mathau o bryderon a godwyd gael eu nodi'n hawdd, tynnu sylw uwch reolwyr atynt ac ymdrin â nhw'n brydlon.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw, lle byddai cleifion neu eu teuluoedd am godi pryder yn ffurfiol, y byddent yn cael gwybodaeth Gweithio i Wella<sup>7</sup> er mwyn eu helpu.

Gwelsom sampl fach o'r lluo o gardiau diolch a gafwyd ar y ddwy ward oddi wrth gleifion a'u teuluoedd i gydnabod y gofal a gawsant a'r caredigrwydd a ddangoswyd.

#### Ward Ebbw

Gwnaethom siarad ag un meddyg a nododd yn fanwl yr ymdrechion beunyddiol i siarad â'r cleifion gyda'u teuluoedd yn ystod amseroedd ymweld. Gwnaed hyn er mwyn cydnabod pwysigrwydd siarad â phawb dan sylw. Gwelsom hyn ar waith yn ystod ein hymweliad dau ddiwrnod. Roedd yn amlwg bod y meddyg dan sylw wedi meithrin perthynas dda iawn â'r cleifion ac eraill oedd ynghlwm wrth eu gofal.

Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn gwybod at bwy i droi petai ganddynt unrhyw bryderon. Hefyd nodwyd na fu angen iddynt godi unrhyw bryderon ynghylch y gofal roedd eu haelod o'r teulu wedi'i dderbyn.

Gwelsom nifer fawr o ffurflenni adborth oedd wedi'u cwblhau (yn ddiennw) gan gleifion a pherthnasau wrth fynedfa'r ward. Er bod angen canmol gweithdrefnau agored a rhagweithiol tîm y ward, nodwyd y gallai fod yn fwy defnyddiol i'r cleifion a'u teuluoedd gael crynodeb clir o'r adborth a gafwyd a'r camau a gymerwyd wedyn yn lle hynny. Roedd prif nyrs y ward yn agored iawn i'r syniad hwn.

---

<sup>7</sup> Gweithio i Wella yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt ar draws y GIG yng Nghymru.



## Ward Tyleri

Roedd sawl taflen Gweithio i Wella ar gael ar y ward. Fodd bynnag, roedd pob un a welwyd adeg yr arolygiad yn Gymraeg. Felly, tynnwyd sylw prif nyrs y ward at hyn, fel bod mwy o daflenni Saesneg yn cael eu darparu. Hefyd, roedd hysbysiad mawr yn annog pobl i siarad â phrif nyrs y ward os oedd ganddynt unrhyw bryderon.

Gwelsom fod y cleifion a'u perthnasau yn cael eu hannog i rannu eu barn drwy wneud sylwadau mewn llyfr oedd wedi'i leoli yng nghoridor y ward. Serch hynny, nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml yn anffodus.

Hefyd, gwelsom boster mawr yn gwahodd gofalwyr i gysylltu ag aelod o staff er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y cymorth oedd ar gael iddynt yn y gymuned leol.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd y staff i gyd yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Materion cyffredinol

Roedd yr ardaloedd clinigol a arolygwyd, a'r rhannau eraill o'r ysbyty a welwyd yn ystod ein hymweliad, yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Cafodd y goruchwylydd a'r staff cadw tŷ eu canmol am eu gwaith.

Roedd y dodrefn, y ffitiadau ac amgylchedd y cleifion ym mhob ardal yn ymddangos mewn cyflwr da. Roedd hyn ar wahân i'r materion a nodir isod, o ran Ward Ebbw.

Gwelsom fod offer trydanol yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd.

Roedd yr ardaloedd clinigol a arolygwyd yn fawr ac yn hygyrch. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff gynorthwyo'r cleifion hynny ag anawsterau symudedd yn ddidrafferth.

Datgelodd trafodaethau ag uwch aelodau o staff fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn trafod digwyddiadau datix<sup>8</sup> ynghyd ag unrhyw gamau dilynol i'w cymryd, a disgrifiodd prif nyrsys y wardiau y pwyslais a roddwyd ar

---

<sup>8</sup> Mae Datix yn galluogi wardiau, gorsafoddd ambiwlans a meddygfeydd i gyflwyno adroddiadau ar ddigwyddiadau, gan wella cyfraddau adrodd yn sylweddol a hyrwyddo perchenogaeth o risg.

sicrhau bod pob digwyddiad clinigol yn cael ei gofnodi'n llawn ac yn brydlon. Hefyd disgrifiodd uwch aelodau o staff y system a'r prosesau oedd ar waith o ran Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Golygai hyn fod trefniadau rheoli hirsefydledig ar waith i sicrhau bod digwyddiadau ar y wardiau yn cael eu dwyn at sylw aelodau gweithredol o'r bwrdd er mwyn sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a bod y camau priodol yn cael eu cymryd.

Roedd trefniadau addas ar waith i ganfod sepsis yn gynnar a/neu unrhyw ddirywiad yn iechyd corfforol, iechyd meddyliol a lles cyffredinol claf.

### Ward Ebbw

Gwelsom bum hysbysiad gwahanol ar ddrysau ystafelloedd cleifion, gyda phedwar yn nodi bod y fraich fetel oedd yn cadw'r sgrin deledu fach yn sownd i'r wal wedi torri. O drafod y mater hwn gyda phrif nyrs y ward a'r uwch aelodau eraill o staff, daeth yn amlwg bod gwaith trwsio fel hyn yn gostus ac yn digwydd yn aml. O ystyried bod cost gwaith trwsio fel hyn yn golygu bod llai o arian i'w wario ar ofal cleifion uniongyrchol, gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd y dylai ystyried gosod math arall o ddyfais ar y wal i ddi-ddanu'r cleifion. Byddai hyn yn atal y cleifion rhag teimlo'n unig a/neu ddiffasu wrth dderbyn gofal yn eu hystafelloedd eu hunain (ni allai llawer o'r cleifion symud o amgylch y ward oherwydd eu problemau iechyd corfforol).

Hefyd gwelsom fod bleind ffenestr wedi torri. Roedd prif nyrs y ward wedi rhoi gwybod am hyn i'r adran ystadau yn syth, ond, wrth aros i'r gwaith trwsio gael ei wneud, gallai preifatrwydd y claf a'i lefel o gysur gael eu peryglu. Felly, gwnaed uwch reolwyr yn ymwybodol o hyn, er mwyn sicrhau bod y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad i AGIC o'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod gwaith trwsio ar y wardiau yn digwydd yn brydlon, yn enwedig gan contractwyr allanol.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd er mwyn sicrhau bod bleind ffenestr yn ystafell un o'r cleifion ar Ward Ebbw yn cael ei drwsio.

### Atal manau pwyso a niwed i feinweoedd

Materion cyffredinol

Gallem gadarnhau fod trefniadau asesu risg hirsefydledig ar waith o ran atal wiserau pwysu a'u rheoli. Hefyd gwelsom fod ffurflenni mapiau corff wedi'u cwblhau'n briodol, a oedd yn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Ward Ebbw

Gwelsom wybodaeth glir a chryno ar hysbysfwrdd ynghylch atal briwiau pwysu a'u rheoli.

## Atal cwympiadau

Materion cyffredinol

Roedd yn amlwg bod timau'r ddwy ward yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)<sup>9</sup>. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn amlwg yn deall eu rôl wrth atal cleifion rhag cwmpo, a rheoli hynny.

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion y gwnaethom edrych arnynt, nodwyd bod y cleifion wedi cael eu hasesu o ran y risg o gwmpo a bod cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith. Gallem hefyd gadarnhau bod y staff yn gwneud pob ymdrech i leihau'r risg o gwmpo a chael anaf ymhlith y cleifion, tra'u bod ar y wardiau. Er enghraifft, roedd matiau diogelu cleifion a matiau larwm ar gael ac yn cael eu defnyddio yn hyn o beth.

Nodwyd bod y broses o gofnodi achosion o gwmpo yn hirsefydledig ac yn cael ei deall gan y staff. Hefyd gwelsom dystiolaeth bod teuluoedd wedi cael gwybod am ddiwyddiadau o'r fath mewn modd amserol.

## Atal a rheoli heintiau

Materion cyffredinol

---

<sup>9</sup> Mae canllawiau NICE yn argymhellion iechyd a gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Amlinellir y gofal a'r gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o bobl â chyflwr neu angen penodol, ynghyd â phobl mewn lleoliadau neu amgylchiadau penodol. Gall canllawiau o'r fath helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i wneud y canlynol: atal salwch.

Yn ddiethriad, nododd pob claf y gwnaethom siarad ag ef pa mor lân a thaclus oedd y wardiau o hyd.

Gwnaethom siarad â'r staff domestig a ddangosodd pa mor wybodus oeddent o ran eu gwaith; roedd amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau ac ar gael yn hawdd i'r staff rheolaidd a'r staff dros dro. Roedd hyn yn sicrhau cysondeb o ran lefelau glendid pob ardal. Hefyd bu modd i ni gadarnhau bod y staff domestig yn cael digon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau a oedd yn helpu i Atal a Rheoli Heintiau yn effeithiol.

Roedd systemau rheoli priodol ar waith er mwyn sicrhau bod prosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi yn cael eu deall, eu monitro a'u dilyn gan y staff.

Gwelsom reseli storio yn ystafell pob claf a oedd yn cynnwys cyfarpar diogelu personol (fel menig a ffedogau) i'w defnyddio gan y staff er mwyn cefnogi arfer atal a rheoli heintiau da.

Gwnaethom siarad â'r staff a allai ddisgrifio'r Pum Cam Hylendid Dwylo<sup>10</sup>

Gwelsom fod y staff yn arfer hylendid dwylo da wrth gynorthwyo'r cleifion ar y ddwy ward dan sylw.

Er i ni weld bod holl offer y wardiau yn edrych yn lân a bod y staff yn gallu disgrifio'r prosesau glanhau offer manwl oedd ar waith, gwnaethom nodi bod angen gosod labeli Rwy'n Lân ar yr offer pan oedd yn barod i'w ddefnyddio. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod timau'r wardiau yn glir ynghylch defnyddio'r offer drwy'r amser.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod labeli yn cael eu gosod ar offer (a ddefnyddir i ofalu am y cleifion) ar ôl ei lanhau. Gwneir hyn er mwyn atal croes-heintio.

---

<sup>10</sup> Mae'r Pum Cam Hylendid Dwylo yn diffinio'r camau allweddol pan ddylai gweithwyr gofal iechyd sicrhau hylendid dwylo. Mae'r dull hwn o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i brofi, ac yn canolbwyntio ar y defnyddiwr wedi'i gynllunio i fod yn hawdd ei ddysgu, yn rhesymegol ac yn hawdd ei ddefnyddio mewn ystod eang o leoliadau.

## Maeth a hydradu

### Materion cyffredinol

Gallem gadarnhau bod trefniadau clir oedd yn cael eu deall ar waith i asesu, rheoli ac ymateb i'r risgiau a wynebwyd gan y cleifion o ran lefelau cymeriant bwyd a hylif gwael ar y ddwy ward a arolygwyd. Roedd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau amserol at ddeietegydd a/neu therapydd lleferydd ac iaith (mewn achosion lle effeithiwyd ar allu claf i lyncu). Hefyd gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i fonitro faint o fwyd a diod oedd yn cael ei gymryd gan y cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff wedi eu helpu i fwyta ac yfed pan na allent wneud hynny eu hunain, yn gynharach yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Gwnaeth y cleifion ganmol ansawdd y bwyd a ddarparwyd a dywedwyd wrthym nad oeddent yn gorfod rhuthro i fwyta eu bwyd. Hefyd nodwyd bod eu hambyrddau bwyd yn cael eu symud yn brydlon ar ôl eu defnyddio.

Gwelsom fod y cleifion yn cael peth dewis bob dydd o ran eu bwyd a diod; roedd eu dewisiadau yn cael eu cofnodi drwy system archebu bwyd electronig. Roedd hyn yn sicrhau bod y prydau a oedd yn cael eu harchebu gan a/neu ar gyfer cleifion yn cael eu darparu'n gywir. Roedd byrbrydau ar gael i'r cleifion rhwng prydau os oeddent yn dymuno eu cael, ac roedd jygiau dŵr yn cael eu hail-lenwi drwy gydol y dydd, ac roeddent o fewn cyrraedd hawdd i'r cleifion.

Gwelsom fod bwyd yn cael ei weini'n brydlon i'r cleifion oherwydd trefniadau gweini'r wardiau. Golygai hyn fod timau'r wardiau yn cael digon o amser i helpu ac annog cleifion i fwyta eu bwyd.

Roedd amser prydau'r cleifion wedi'u diogelu. Golygai hyn fod holl weithgarwch arall y ward yn darfod ar yr adegau hyn. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael digon o amser i fwyta eu bwyd yn annibynnol, neu gyda chymorth y staff neu aelodau o'r teulu, yn ôl eu dymuniad.

Gwelsom fod byrddau'r cleifion wrth ochr y gwely yn lân a thacius drwy'r amser.

## Rheoli meddyginiaethau

## Materion cyffredinol

Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhoi i'r cleifion yn ddiogel, ac ar yr adeg gywir.

Er enghraifft, gwelsom fod ffedogau coch yn cael eu gwisgo gan nyrsys cofrestredig wrth roi meddyginiaeth. Mae hyn yn beth cyffredin mewn ysbytai, a'r nod yw rhybuddio eraill rhag amharu ar y nyrs, sydd felly'n lleihau'r risg o wneud camgymeriad.

Roedd system gyfarwydd ar waith (sef Omnicell<sup>11</sup>) oedd yn helpu'r staff i gael gafael ar gyffuriau'r cleifion y tu allan i oriau gwaith arferol.

Roedd dwy nyrs gofrestredig yn cynnal archwiliadau wythnosol o Gyffuriau a Reolir<sup>12</sup>, yn unol â pholisi cytûn y bwrdd iechyd.

Gwelsom gyfeiriad wedi'i gofnodi at y risg o Thromboembolws Gwythiennol (VTE)<sup>13</sup> ar siartiau cyffuriau Cymru gyfan a gynhyrchir gan ysbytai cyffredinol dosbarth lleol pan fo claf yn cael ei dderbyn gyntaf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth ddilynol wedi'i chofnodi o fonitro'r claf yn hyn o beth. Felly, gwnaethom dynnu sylw'r holl staff perthnasol at hyn yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom fod siartiau cyffuriau Cymru gyfan yn cael eu cwblhau'n gywir. Roedd hyn yn cynnwys cofnodi'r rhesymau dros beidio â rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn i gleifion. Fodd bynnag, roedd un achos o siart claf lle na chafwyd llofnod gan nyrs.

Lle'r oedd timau'r wardiau wedi nodi bod gan glaf alergedd i fath o feddyginiaeth, cafodd y claf dan sylw fand coch i'w wisgo ar ei fraich er mwyn rhybuddio'r staff.

---

<sup>11</sup> System dosbarthu meddyginiaeth awtomataidd yw Omnicell

<sup>12</sup> Caiff rhai meddyginiaethau sydd ar bresgripsiwn eu rheoli o dan ddeddfwriaeth Camddefnyddio Cyffuriau (a diwygiadau dilynol). Gelwir y meddyginiaethau hyn yn feddyginiaethau neu'n gyffuriau a reolir. Yn eu plith mae: morffin a pethidin.

<sup>13</sup> Mae VTE yn gyflwr lle mae clot gwaed yn ffurfio mewn gwythien. Felly, mae angen cynnal asesiadau risg er mwyn asesu'r risg i gleifion a phennu pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal hyn rhag digwydd.

Datgelodd trafodaethau â'r staff fod oedi yn aml cyn cael pecynnau pothellog meddyginiaethau<sup>14</sup> i'r cleifion fynd â nhw gartref. Roedd y fath oedi wedi arwain at hyd at 48 awr o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

## Ebbw

Nid oedd fferyllydd penodol yn gysylltiedig â'r ward hon ar adeg yr arolygiad, felly cafwyd y math hwn o gymorth ar sail ad hoc. Fodd bynnag, cawsom wybod bod trefniadau ar waith i sicrhau y gallai tîm y ward gael gafael ar gyngor a chymorth fferyllol rheolaidd yn y dyfodol agos.

Roedd tymheredd yr oergell cyffuriau yn cael ei fonitro ddwywaith y dydd; disgrifiwyd y camau priodol ar adegau pan gofnodwyd bod y tymheredd y tu allan i'r hyn oedd yn ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd yr oergell wedi'i gloi ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad. Felly cafodd y staff eu hatgoffa bod angen gwneud hyn.

## Ward Tyleri

Nid oedd dau glaf yn gwisgo bandiau braich i'w hadnabod. Cafodd hyn ei wneud yn ystod ein hymweliad. Rhoddir rhagor o fanylion yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Gwelsom fod swm sylweddol o Gyffuriau a Reolir diangen yn cael eu cadw ar y ward. Dywedodd y staff wrthym fod stoc o'r fath fel arfer yn cael ei archwilio gan fferyllydd bob tri mis. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r fferyllydd oedd yn ymweld bod angen trefnu i wneud hyn cyn gynted â phosibl. Nod hyn fyddai cael gwared ar unrhyw gyffuriau nad oedd eu hangen.

Nodwyd nad oedd yr oergell cyffuriau ar y ward wedi'i chloi am nad oedd allwedd ar gael. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod oergell newydd wedi cael ei harchebu. Fodd bynnag, nid oedd tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

---

<sup>14</sup> Gall pecynnau pothellog, neu becynnau cydymffurfio neu becynnau swigod, helpu pobl i dracio eu meddyginiaethau. Mae pecynnau pothellog yn cynnwys adrannau penodol dan sêl, neu lefydd gwag i feddyginiaethau gael eu cymryd ar adegau penodol o'r dydd.



## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/a gymerir o ran y materion canlynol:

Y ffaith nad oes cofnodion o fonitro VTE

Oedi wrth gael pecynnau pothellog meddyginiaeth sy'n effeithio ar ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol

Cofnodi tymheredd yr oergell cyffuriau ar Ward Tyleri yn rheolaidd

Cadw stoc ddiangen o Gyffuriau a Reolir ar Ward Tyleri.

## Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Materion cyffredinol

Nodwyd bod uwch aelodau o'r staff yn cwblhau ceisiadau DoLS<sup>15</sup> cleifion, gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y broses gywir yn cael ei dilyn mewn modd amserol. Hefyd, roeddem yn fodlon bod y staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r broses DoLS a phryd/sut y dylid ei defnyddio.

Roedd un claf ar bob un o'r ddwy ward a arolygwyd yn destun awdurdodiad DoLS yn ystod ein harolygiad; roedd y staff wedi trefnu i ymestyn y trefniadau hynny'n brydlon mewn ymateb uniongyrchol i anghenion parhaus y cleifion.

Roedd y ddwy ward wedi'u cloi er mwyn atal rhywun rhag cael mynediad heb awdurdod. Fodd bynnag, roedd ffordd o gael mynediad/gadael a allai gael ei gweithredu'n hawdd gan y staff ac ymwelwyr.

---

<sup>15</sup> Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gyfraith sy'n diogelu eich hawliau os na fyddwch yn gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun. Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn set o reolau o fewn y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r rheolau hyn yn gymwys os na allwch wneud rhai penderfyniadau ynghylch eich gofal. Gallai hyn fod oherwydd problemau gyda'r cof, anaf i'r pen, salwch meddwl neu anabledd dysgu.

Gallai'r cleifion ddefnyddio eiriolwyr os oedd angen cymorth arnynt i wneud penderfyniadau am eu gofal. Byddai'r cymorth hwn fel arfer yn cael ei drefnu gan staff y ward a/neu weithiwr cymdeithasol.

Ward Ebbw

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gweld tystiolaeth bod galluedd meddyliol y cleifion wedi cael ei asesu'n ffurfiol wrth iddynt gael eu derbyn (lle bo'n briodol ac yn barhaus). Hefyd gwelsom fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel nyrsys iechyd meddwl cofrestredig ac aelodau o dîm RAID<sup>16</sup> wedi cael eu cynnwys mewn asesiadau o'r fath.

Fodd bynnag, nid oedd cynllun gofal penodol ar gyfer un claf o ran ei alluedd meddyliol, er i ni gael gwybod bod cynllun ar waith. Aeth prif nyrs y ward i'r afael â'r mater hwn yn gyflym iawn ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Materion cyffredinol

Gallem gadarnhau bod gan y ddwy ward ddigon o offer a dyfeisiau meddygol priodol i ddiwallu anghenion y cleifion (er enghraifft, teclynnau codi, synwryddion symud a oedd yn helpu i atal cleifion rhag cwmpo, comodau a matresi gwely addas).

Roedd staff y wardiau yn rhoi gwybod am offer diffygiol yn brydlon, gyda'r nod o sicrhau ymateb amserol gan y gwasanaeth ystadau neu gwmnïau allanol. Roedd cofnod clir yn cael ei gadw gan dderbynydd y ddwy ward o ran y materion hyn.

Fodd bynnag, nodwyd bod oedi rheolaidd wrth gwblhau gwaith adferol, yn enwedig os defnyddiwyd contractwyr allanol. Mae'r mater hwn wedi cael ei amlinellu'n gynharach yn y rhan hon o'r adroddiad o dan yr is-bennawd Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch.

### **Gofal effeithiol**

---

<sup>16</sup> Ystyr RAID yw Asesu, Rhyngwyneb a Rhyddhau Cyflym. Mae tîm RAID yn cynnwys gweithwyr iechyd meddwl arbenigol proffesiynol.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

### Materion cyffredinol

Nodwyd bod y staff yn cwblhau cyfres o archwiliadau a gwiriadau rheolaidd (er enghraifft manau pwyso, cwympiadau, dementia, rhoi meddyginiaethau yn ddiogel). Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod pwyslais parhaus ar ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel, a gwneud penderfyniadau diogel, o ran pob claf. Roedd canlyniadau'r archwiliadau hyn i'w gweld yn amlwg ar y ddwy ward, ynghyd â dyddiadau'r archwiliadau ar gyfer gweddill 2018.

### Ward Ebbw

Gwelwyd tystiolaeth bod lefelau poen y cleifion yn cael eu mesur, bod camau yn cael eu cymryd a bod effeithiolrwydd meddyginiaeth yn cael ei werthuso.

Roedd byrddau PSAG yn cynnwys symbol i rybuddio pob aelod o dîm y ward bod claf yn colli ei gof byrdymor, neu fod ganddo ddementia. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod cleifion o'r fath yn cael cefnogaeth dda ac yn cael eu diogelu rhag niwed diangen cymaint â phosibl.

### Ward Tyleri

Roedd Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn cwblhau rownd ar y ward bob dydd er mwyn asesu pob claf a sicrhau bod cynlluniau gofal yn mynd rhagddynt yn dda. Hefyd, roedd Meddyg Ymgynghorol yn ymweld â'r cleifion bob wythnos; rhoddwyd cyngor a chymorth i dîm y ward yn ôl yr angen. Hefyd buom yn bresennol adeg rownd gan y bwrdd sy'n digwydd bob bore a nodwyd bod anghenion, cynnydd a threfniadau rhyddhau pob claf yn cael eu cyfleu'n effeithiol ar draws y tîm amlddisgyblaethol. Roedd y trefniadau hyn yn golygu bod pwyslais ar sicrhau bod y cleifion yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed diangen drwy ofal, triniaeth, gwybodaeth a chymorth priodol, a nodi risgiau ar gam cynnar.

Gwelsom ddefnydd o ddogfennaeth Dyma Fi a oedd yn ategu gwybodaeth arall am gleifion â dementia. Roedd hyn yn golygu bod pwyslais ar ddod i wybod beth oedd dymuniadau, dewisiadau a gwybodaeth bersonol allweddol y cleifion cymaint â phosibl, drwy gysylltu â'u perthnasau a'u ffrindiau.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

## Materion cyffredinol

Gwnaeth uwch reolwr y gwnaethom siarad ag ef ddisgrifio un o blith nifer o fentrau cleifion newydd oedd wedi'u cynllunio ar gyfer yr ysbyty. Yn benodol, mae'r ysbyty yn ceisio darparu hyd at saith o welyau ward i gleifion rhwng 20 a 50 oed. Byddai'r fenter yn cynnig gwell trefniadau adsefydlu i'r cleifion hynny drwy gampfa a therapïau eraill. Gwneir hyn er mwyn gwella eu lles cyffredinol a'u hiechyd meddwl wrth dderbyn gofal, yn ogystal ag o'r adeg y cânt eu rhyddhau o'r ysbyty. Gwnaeth y tîm arolygu ganmol hyn.

Gwnaethom hefyd siarad â nifer o staff oedd yn llawn cymhelliant, yn teimlo'n angerddol am eu gwaith ac yn cael eu hannog i rannu syniadau ag uwch aelodau o staff ynghylch ffyrdd o wella gwasanaethau i'r cleifion a'u teuluoedd.

## Cadw cofnodion

### Materion cyffredinol

Roedd cofnodion gofal cleifion (gan dîm y ward a phob gweithiwr proffesiynol oedd yn ymweld) yn glir ac wedi'u gwneud naill ai ar yr adeg y darparwyd gofal a chymorth, neu'n fuan wedyn. Roedd hyn yn unol â chanllawiau proffesiynol cyfredol. Roedd hefyd yn amlwg bod pwyslais ar gynllunio a darparu gofal unigol i'r cleifion. Roedd hyn hefyd yn unol ag arfer da a chanllawiau proffesiynol ac yn sicrhau bod holl dîm y ward yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am anghenion pob claf.

Fodd bynnag, roedd gwybodaeth am ofal cleifion yn ei gyfanrwydd (sef llwybr gofal claf) yn cael ei chadw mewn sawl man a all beri her i aelodau newydd o staff neu nyrsys asiantaeth. Hefyd, nid oedd dogfennaeth asesu nyrsys a gynhyrchwyd gan ysbytai cyffredinol dosbarth lleol lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal aciwt yn parhau yn Ysbyty Aneurin Bevan. Yn hytrach, roedd dogfennaeth asesu wahanol yn cael ei dechrau. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd deall ac ystyried ansawdd asesuadau nyrsys o dderbyn claf i'r ysbyty gyntaf, i'r presennol.

Gwelsom fod llawer iawn o ffurflenni wedi'u llungopïo yn cael eu defnyddio. Roedd y rhan fwyaf o ansawdd gwael iawn, ac nid oedd modd darllen rhai bron o gwbl. Pan holwyd am hyn, dywedodd y staff nad oeddent wedi gallu cael gafael ar gopïau gwreiddiol o'r storfeydd, er iddynt ofyn sawl gwaith.

### Ward Tyleri

Gwelsom fod nifer fach o gofnodion cleifion a gwblhawyd gan Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn cael eu cadw mewn ffolderi cardbord. Roedd hyn oherwydd yr

anawsterau a gafwyd gan dîm y ward i gael gafael ar ffolderi'r bwrdd iechyd oedd yn ofynnol ers rhai misoedd. Golygai hyn fod perygl o golli dogfennaeth allweddol cleifion. Felly gwnaethom dynnu sylw'r uwch reolwyr at hyn er mwyn iddynt fynd i'r afael â'r mater yn brydlon.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod asesiadau nyrsio pob claf yn cael eu cwblhau. Gwneir hyn er mwyn cydnabod pwysigrwydd cadw cofnodion sy'n helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu diweddariad i AGIC ar argaeledd ffurflenni darllenadwy, o ansawdd da, ynghyd â ffolderi nodiadau achos timau'r wardiau er mwyn cofnodi gofal cleifion a storio nodiadau'r cleifion yn ddiogel.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd tystiolaeth o drefniadau arwain a rheoli cryf a chyson yn ymwneud â'r meysydd clinigol a arolygwyd. Roedd hyn yn arwain at ddiwylliant staff cadarnhaol a pharodrwydd i ddatblygu ymhellach y gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig i'r cleifion a'u teuluoedd.

Er bod prif nyrsys y wardiau yn gwneud pob ymdrech i gwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol, roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â thargedau'r bwrdd iechyd.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Materion cyffredinol

Roedd tystiolaeth o drefniadau arwain a rheoli cryf a chyson yn ymwneud â'r meysydd clinigol a arolygwyd.

Hefyd roedd y prif nyrsys yn cael statws ychwanegol; roedd yr uwch reolwyr yn ymdrechu i sicrhau bod hyn yn parhau yn ystod pob diwrnod gwaith. Golygai hyn y gallent ddefnyddio eu gwybodaeth glinigol a'u sgiliau rheoli helaeth er mwyn cynnig arweiniad a chymorth i'w timau ar y ward.

Arweiniodd sgysiaid â phrif nyrsys y wardiau ac uwch-reolwr nyrsio at ddisgrifiadau clir o'r gwerthoedd a'r dulliau o ddarparu gofal oedd yn cael eu hannog ar y ward ac yn yr ysbyty. Hefyd, cadarnhaodd y tîm arolygu fod y staff yn parchu ac yn cefnogi ei gilydd, yn ogystal â pharchu a chefnogi'r cleifion a'u teuluoedd.

Gwnaeth y staff o'r ddwy ward y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol iawn am y cymorth beunyddiol roeddent yn ei gael gan brif nyrsys y wardiau, uwch-ymarferwyr nyrsio, uwch-reolwyr nyrsio ac uwch reolwyr yn yr ysbyty.

Tudalen 30 o 47

Nodwyd hefyd eu bod yn hapus iawn ac yn falch iawn o weithio yn Ysbyty Aneurin Bevan.

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiadur AGIC er mwyn cael eu barn ar yr hyfforddiant oedd ar gael, trefniadau cefnogi rheolwyr, elfennau o ofal y cleifion, a'u gallu i godi pryderon am arferion clinigol anniogel. Cwblhawyd 11 ohonynt i gyd. Gwnaeth pawb a ymatebodd gynrig sylwadau ac ymatebion cadarnhaol i'r uchod. Yr unig eithriad oedd anallu'r staff i fodloni'r holl ofynion croes oedd ganddynt.

Gwelsom sawl enghraifft o gydweithio effeithiol rhwng y timau ar y wardiau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a oedd naill ai yn yr ysbyty, neu yn y gymuned. Golygai hyn fod pwyslais ar sicrhau bod y cleifion yn cael yr holl ofal, triniaeth a chyngor roedd eu hangen arnynt er mwyn paratoi ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o strategaeth y bwrdd iechyd, sef Dyfodol Clinigol<sup>17</sup> a'r hyn roedd yn ei olygu iddyn nhw a'r bobl oedd yn byw yn y gymuned.

Ward Ebbw

Datgelodd trafodaethau â phrif nyrs y ward fod tîm y ward yn dilyn egwyddorion Ymgyrch John<sup>18</sup> er mwyn sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal a chymorth yn y ffordd fwyaf buddiol i'w lles.

Ward Tyleri

---

<sup>17</sup> Dyfodol Clinigol yw strategaeth gwasanaeth clinigol gymeradwy hirsefydledig Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Yn y bôn, nod y strategaeth yw ailgydbwyso darpariaeth gofal iechyd, gan alluogi dinasyddion i chwarae rôl fwy gweithredol o ran ei hiechyd a'u lles.

<sup>18</sup> Cafodd Ymgyrch John ei sefydlu ym mis Tachwedd 2014. Yn sail i'w ddatganiad syml o ddiben, mae'r gred y dylai gofalwyr gael croeso, a bod y cydweithredu rhwng y cleifion a phawb sy'n gysylltiedig â nhw yn hanfodol i'w hiechyd a'u lles. Mae Ymgyrch John yn gymwys i bob lleoliad ysbyty: aciwt, cymunedol ac iechyd meddwl, a gallai ei hegwyddorion ymestyn i bob sefydliad sy'n darparu gofal lle mae pobl yn byw ar wahân i'w hanwyliad. <http://johnscampaign.org.uk/#>

Fel y nodwyd yn flaenorol yn adran Cefndir yr adroddiad hwn, roedd model gofal oedd yn cael ei arwain gan nyrsys (cynllun peilot uwch-ymarferwyr nyrsio) ar waith ar y ward hon ar adeg ein harolygiad. Felly, roedd y cleifion oedd yn cael eu derbyn i'r ward yn rhai â chyflwr iechyd cyffredinol oedd yn cael ei ystyried yn sefydlog. Roedd y cynllun peilot wedi cael ei werthuso'n ddiweddar ac ystyriwyd ei fod yn llwyddiannus o ran elfennau arwain a rheoli a chanlyniadau cleifion cadarnhaol.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

#### Materion cyffredinol

Roedd niferoedd staff a'r cymysgedd o sgiliau yn briodol ar y ddwy ward yn ystod y dydd.

Hefyd gallem gadarnhau bod y bwrdd iechyd yn rhagweithiol o ran recriwtio staff. Er enghraifft, roedd diwrnod agored wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Medi 2018 lle byddai nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd presennol yn gallu rhannu eu profiadau cadarnhaol o weithio yn yr ysbyty â phawb oedd â diddordeb mewn gweithio yno. Roedd hyn ar ben hysbysebu swyddi gwag mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn barhaus.

Dywedodd prif nyrsys y wardiau wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar staff ychwanegol i ddiwallu anghenion y cleifion, mewn ymateb uniongyrchol i newidiadau mewn dibyniaeth. Cawsom rai enghreifftiau ymarferol o'r hyn a wnaed dros yr wythnosau diwethaf. Hefyd, nododd aelodau o dimau'r wardiau a'r uwch reolwyr y byddai'r staff yn cael eu symud o rannau o'r ysbyty â llai o ddibyniaeth, i rannau ohono â mwy o ddibyniaeth gan gleifion, a hynny'n ad hoc.

Dywedwyd wrthym y byddai Uwch-ymarferydd Nyrsio fel rheol ar alw gyda'r nos er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i'r wardiau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, roedd un swydd wag ar gyfer Uwch-ymarferydd nyrsio adeg yr arolygiad oedd yn peri heriau o ran darparu cymorth o'r fath.

#### Ward Ebbw

Nodwyd bod swyddi gwag nyrsys cofrestredig, absenoldeb mamolaeth a salwch staff hirdymor wedi arwain at ddefnydd parhaus a rheolaidd o nyrsys asiantaeth. Fodd bynnag, roedd y bwrdd iechyd yn ymdrechu i ddefnyddio'r un staff asiantaeth er mwyn ceisio sicrhau cymaint o gysondeb â phosibl o ran gofal y cleifion.



Yn dilyn sgysiau â phrif nyrs y ward gwelwyd tystiolaeth bod rhestr wirio sefydlu yn cael ei chwblhau cyn i nyrsys asiantaeth ddechrau gweithio ar y ward. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff ward parhaol yn cysgodi staff asiantaeth os oedd angen. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyfforddus â gweithdrefnau allweddol ac arferion y ward. Fodd bynnag, nodwyd na allai staff nyrsio asiantaeth gyflawni eu rôl ar adegau, am nad oeddent yn cael cyflawni nifer o ymyriadau gofal. Roedd ymyriadau o'r fath yn cynnwys cynnal profion glwcos gwaed (yn achos cleifion â diabetes). Gallai hyn gael effaith negyddol ar ddarparu gofal diogel, prydlon ac effeithiol i'r cleifion.

Datgelodd trafodaeth â'r uwch-nyrsys a'r rheolwyr yn ystod sesiwn adborth AGIC ynghylch y materion hyn fod trefniadau yn bodoli i roi hyfforddiant ychwanegol i nyrsys asiantaeth mewn rhannau eraill o'r bwrdd iechyd. Felly, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno hyfforddiant o'r fath i nyrsys asiantaeth yn Ysbyty Aneurin Bevan.

Gwelwyd bod staff meddygol penodol yn cefnogi'r ward rhwng 9am a 5pm. Hefyd, roedd perthynas waith broffesiynol ardderchog rhwng y staff meddygol a'r staff nyrsio. Petai angen cymorth meddygol ar glaf y tu allan i'r oriau hyn, roedd trefniadau hirsefydledig ar waith i'r staff eu dilyn.

Datgelodd sgysiau â phrif nyrs y ward a staff eraill fod un nyrs gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd fel arfer yn darparu gofal a chymorth i 16 o gleifion gyda'r nos. Er iddynt ddweud wrthym y gallai staff ychwanegol ddod i'r ward o rannau eraill o'r ysbyty os oedd angen, roeddent yn agored am y ffaith ei bod hi'n anodd cadw llygad ar bob claf, yn enwedig gyda'r nos oherwydd cynllun y ward ac ystafelloedd unigol y cleifion. Hefyd, cafwyd sawl achos lle na fu modd i'r cleifion alw am help drwy ganu'r gloch, a sawl achos pan oedd anghenion a dibyniaeth y cleifion mor gymhleth gyda'r nos ag yr oeddent yn ystod y dydd. Hefyd, dywedodd un claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn poeni, petai'n mynd yn sâl dros nos, na fyddai'r staff yn cael amser i ymateb iddo.

Felly, dywedwyd wrth bawb oedd yn ein cyfarfod adborth bod angen i niferoedd staff a'r cymysgedd o sgiliau gael eu hadolygu ar Ward Ebbw gyda'r nos.

Ward Tyleri

Roedd uwch-ymarferwyr nyrsio yn gyfrifol am gynllunio, cydlynu ac arwain y gofal oedd yn cael ei ddarparu ar y ward hon; byddai staff meddygol yn cwblhau rownd ar y ward unwaith yr wythnos. Petai angen cymorth meddygol y tu allan i oriau gwaith arferol, gallai tîm y ward gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau, neu'r meddygon ar alw.

Dywedwyd wrthym mai prin y defnyddiwyd nyrsys asiantaeth i fynd i'r afael â salwch annisgwyl neu absenoldeb ar y ward hon; roedd yn well gan y tîm weithio oriau ychwanegol os oedd angen.

#### Hyfforddiant ac arfarniadau

Gallem gadarnhau bod modd i staff ddilyn hyfforddiant a ddarparwyd drwy gyfrifiadur yn y gweithle. Disgrifiodd prif nyrsys y wardiau yr hyn a wnaed i alluogi'r staff i gwblhau hyfforddiant o'r fath yn y gwaith, er y gwnaethant gydnabod bod adegau pan roedd angen i'r staff ei gwblhau gartref. Roeddent hefyd yn agored am yr heriau roedden nhw a'u staff yn eu hwynebu, wrth gwblhau hyfforddiant gorfodol a statudol, gan flaenoriaethu gofal diogel ac effeithiol y cleifion ar yr un pryd.

Datgelodd sgysiau ag uwch-reolwr nyrsio a'r pennaeth nyrsio fod cynlluniau ar y gweill i ryddhau aelod o staff o bob un o'r ddwy ward yn yr ysbyty un diwrnod ar y tro, er mwyn mynd i sesiwn hyfforddi. Byddai hyn yn sicrhau bod mwy o hyfforddiant yn cael ei ddilyn mewn llai o amser, gan eu bod yn cydnabod bod angen gwella cyfraddau cydymffurfio â thargedau'r bwrdd iechyd.

Hefyd cawsom wybod fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch rhaglen hyfforddi strwythuredig (peilot) arfaethedig i'r staff. Byddai'r rhaglen beilot yn rhoi'r cyfle i staff newydd a/neu staff presennol gwblhau cyfnod o ddwy flynedd o waith rhwng wardiau cymunedol yr ysbyty, y tîm ailalluogi cymunedol a'r tîm nyrsio cymunedol, er mwyn creu gweithlu mwy hyblyg a gwybodus.

Gallem gadarnhau bod trefniadau cadarn ar waith i fonitro a chofnodi ailddilysiad nyrsys<sup>19</sup>.

Roedd pwyslais ar sicrhau bod y staff yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith; roedd cydymffurfiaeth yn y maes hwn tua 92 y cant ar Ward Ebbw a 55 y cant ar Ward Tyleri, fel y dangosir mewn gwybodaeth a roddwyd gan yr uwch reolwyr dyddiedig mis Mehefin 2018.

---

<sup>19</sup> Mae angen i nyrsys a bydwagedd cofrestredig gael eu hailddilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) bob tair blynedd er mwyn dangos eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer drwy gydol eu gyrfa.

## Ward Ebbw

Dywedwyd wrthym fod un o'r ddau feddyg oedd yn gweithio gyda thîm y ward wedi trefnu rhai sesiynau addysgol er mwyn helpu i sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau perthnasol i'w helpu yn eu gwaith.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/a gymerir er mwyn sicrhau bod nyrsys cofrestredig o asiantaethau allanol sy'n gweithio ar wardiau yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w priod gyfrifoldebau. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau eglurder a chysondeb o ran ei rôl. Bydd hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel, amserol ac effeithiol.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd ysgrifenedig i AGIC am niferoedd staff a chymysgedd o sgiliau Ward Ebbw gyda'r nos. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion pob claf yn cael eu diwallu a bod lefelau dibyniaeth yn cael eu bodloni o hyd.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu disgrifiad i AGIC o'r ffordd y bydd yn sicrhau bod gweithlu Ysbyty Aneurin Bevan yn dilyn rhaglenni hyfforddi statudol a gorfodol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd dau glaf oedd yn derbyn gofal ar Ward Tyleri yn gwisgo bandiau arddwrn.	Golygai hyn fod perygl o roi'r feddyginiaeth anghywir iddynt.	Gwnaethom godi'r pryder hwn gyda phrif nyrs y ward.	Gwnaeth prif nyrs y ward sicrhau bod bandiau arddwrn yn cael eu rhoi iddynt ar unwaith.

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty: Ysbyty Aneurin Bevan**

**Ward/adran: Wardiau Ebbw a Thyleri**

**Dyddiad arolygu: 7 ac 8 Awst 2018**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni wnaethom nodi unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty: Ysbyty Aneurin Bevan**

**Ward/adran: Wardiau Ebbw a Thyleri**

**Dyddiad arolygu: 7 ac 8 Awst 2018**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Ni nodwyd unrhyw faterion i'w gwella o ran y thema hon.		Mae'r staff wedi cael eu canmol am ddarparu'r lefel hon o wasanaeth i'r holl gleifion fel y nodwyd gan gydweithwyr o AGIC ar ddiwrnod yr arolygiad.	Tanya Strange Clare Walters Sian Thomas	Ar unwaith



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad i AGIC o'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod gwaith trwsio ar y wardiau yn digwydd yn brydlon, yn enwedig gan contractwyr allanol.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae'r wardiau yn ddiwyd iawn ynglŷn â gwaith trwsio a bydd yn cysylltu â'r Gwasanaeth Gwaith ac Ystadau yn briodol sy'n cymryd camau yn syth lle bo modd. Gwelir oedi yn aml pan ddefnyddir contractwyr a chwmnïau allanol.</p> <p>Mater i'r Bwrdd Iechyd yw hwn a chaiff adolygiad o'r broses sydd ei hangen er mwyn asesu, comisiynu a chwblhau gwaith gan contractwyr allanol ei gynnal er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Gwaith ac Ystadau wrthi'n treialu gwasanaeth handimon a fydd yn sicrhau bod gwaith trwsio yn cael ei wneud yn gyflymach</p>	<p>Goruchwylydd Cyfleusterau</p> <p>Gwaith Ystadau</p> <p>ac</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Mawrth 2019</p> <p>Mawrth 2019</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd er mwyn sicrhau bod bleind ffenestr yn ystafell un o'r cleifion ar Ward Ebbw yn cael ei drwsio.</p>		<p>Roedd bleind y ffenestr yn ystafell y claf wedi'i gofnodi gyda'r cwmni fel rhywbeth i'w drwsio ac roedd hynny wedi digwydd.</p>		<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod labeli yn cael eu gosod ar offer (a ddefnyddir i ofalu am y cleifion) ar ôl ei lanhau. Gwneir hyn er mwyn atal croes-heintio.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael gwybod bod angen gosod labeli ar offer ar ôl ei lanhau. Mae'r Uwch Nyrs yn cynnal rowndiau bwriadol ddwywaith y dydd. Mae hyn yn cynnwys monitro'r offer. Mae hyn hefyd yn rhan o'n gweithdrefn cerdded o gwmpas amgylcheddol bob mis gyda'r tîm rheoli heintiau a gofnodir drwy system dangosfwrdd.</p>	<p>Uwch Nyrs</p>	<p>Wedi'i gwblhau gyda phroses bellach ar waith.</p> <p>Wedi'i gwblhau gyda phroses bellach ar waith.</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/a gymerir o ran y materion canlynol:</p> <p>Y ffaith nad oes cofnodion o fonitro VTE</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Mae'r system bresennol o fonitro VTE yn cael ei hadolygu ar lefel Meddygon Ymgynghorol y Bwrdd Iechyd. Yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion ar wardiau YAB, mae'r tîm meddygol a'r Uwch-Ymarferydd Nyrsio wedi cyflwyno</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Adolygiad misol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Oedi wrth gael pecynnau pothellog meddyginiaeth sy'n effeithio ar ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol</p>		<p>system o fonitro cleifion bob dydd.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p>
		<p>Nifer fach o gleifion sy'n profi oedi wrth aros am becyn pothellog, ac mae ond yn digwydd pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau'n gynt na'r disgwyl.</p> <p>Mae angen rhoi 48 awr o rybudd i gael meddyginiaeth mewn pecyn pothellog pan ryddheir cleifion i fynd gartref. Y safon yw sicrhau bod y pecynnau hyn yn cael eu harchebu o fewn y terfyn amser ar gyfer rhyddhau cleifion a sicrhau bod hyn ar waith ar gyfer cleifion sy'n symud o ysbytai aciwt. Mae prosiect yn mynd rhagddo ar Ward Tyleri lle caiff y cleifion eu hasesu er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel iddynt ddefnyddio'r pecynnau pothellog hyn</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Cofnodi tymheredd yr oergell cyffuriau ar Ward Tyleri yn rheolaidd</p> <p>Cadw stoc ddiangen o Gyffuriau a Reolir ar Ward Tyleri.</p>		<p>gartref, a'u bod yn gymwys i wneud hynny.</p> <p>Mae ffurflen wedi cael ei llunio a gaiff ei chwblhau ac a leolir ar ddrws yr oergell er mwyn monitro a chofnodi tymheredd yr oergell cyffuriau. Bydd prif nyrs y ward a'r uwch nyrs yn ei fonitro ddwywaith y dydd</p> <p>Mae'r holl gyffuriau a reolir nad oes eu hangen wedi cael eu cymryd allan o'r stoc a gedwir a chaiff hyn ei fonitro gan Fferylllydd y Ward bellach.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Fferylllydd y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod asesiadau nyrsio pob claf yn cael eu cwblhau. Gwneir hyn er mwyn cydnabod pwysigrwydd cadw cofnodion sy'n helpu i</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Fel rhan o'r broses drosglwyddo mae'r llyfryn Gwerthuso Gofal (llyfryn un) bellach yn cael ei adolygu wrth dderbyn claf. Mae rheolwr y ward yn goruchwyllo'r broses hon a bydd clerc y ward yn sicrhau bod digon o lyfrynnau</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu diweddariad i AGIC ar argaeledd ffurflenni darllenadwy, o ansawdd da, ynghyd â ffolderi nodiadau achos timau'r wardiau er mwyn cofnodi gofal cleifion a storio nodiadau'r cleifion yn ddiogel.</p>		<p>newydd ar gael i'r staff nyrsio eu cwblhau ar gyfer y cleifion sydd yn eu gofal lle na chaiff ei drosglwyddo gyda'r claf. Bydd y ddogfen hon yn sicrhau bod dogfennaeth wedi'i chwblhau ac yn cael ei diweddaru'n brydlon</p> <p>Nid oedd ffolderi nodiadau achos ar gael ar gyfer nifer fach o gleifion yr oedd eu nodiadau yn cael eu rheoli drwy'r cynllun cofnodion iechyd digidol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd set o nodiadau yn cael eu cadw mewn ffolder nad oedd yn briodol. Er mwyn rheoli'r sefyllfa hon, mae ffolderi nodiadau achos wedi'u cyflenwi gan yr adran cofnodion meddygol er mwyn gallu cadw nodiadau'r cleifion yn ddiogel. Caiff hyn ei fonitro gan Reolwr y Ward a Chlerc y Ward er mwyn sicrhau bod digon o ffolderi ar gael.</p>	Rheolwr Ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/a gymerir er mwyn sicrhau bod nyrsys cofrestredig o asiantaethau allanol sy'n gweithio ar wardiau yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w priod gyfrifoldebau. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau eglurder a chysondeb o ran ei rôl. Bydd hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel, amserol ac effeithiol.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd ysgrifenedig i AGIC am niferoedd staff a chymysgedd o sgiliau Ward Ebbw gyda'r nos. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion pob claf yn cael eu diwallu a bod lefelau dibyniaeth yn cael eu bodloni o hyd.</p>	7.1 Gweithlu	<p>Prif nyrsys y wardiau sy'n gyfrifol am fonitro cymhwysedd a'r gallu i ddefnyddio offer sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau staff cronfa a staff asiantaeth. Bydd yr uwch nyrs yn monitro'r broses hon.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda'r asiantaethau ac yn eu cefnogi drwy ddarparu diweddariadau ar hyfforddiant sgiliau clinigol i nyrsys cofrestredig gan gynnwys defnyddio offer y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Mae'r lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau bellach wedi cael eu hadolygu a darperir trydydd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd mewn manau â dibyniaeth uchel ac aciwtedd yn dilyn adolygiad proffesiynol. Bydd yr aelod hwn o'r staff yn cael ei ddefnyddio yn</p>	<p>Uwch Nyrs a Rheolwyr Wardiau</p> <p>Uwch Nyrs a Rheolwyr Wardiau.</p>	<p>Caiff anghenion hyfforddi staff cronfa a staff asiantaeth eu dadansoddi'n barhaus.</p> <p>Adolygiad wedi'i gwblhau gydag asesiad parhaus o ddibyniaeth</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu disgrifiad i AGIC o'r ffordd y bydd yn sicrhau bod gweithlu Ysbyty Aneurin Bevan yn dilyn rhaglenni hyfforddi statudol a gorfodol.</p>		<p>unol â'r Polisi Gwella Gofal yn y wardiau a nodwyd a hefyd yn unol â Deddf Staffio Cymru Gyfan.</p> <p>Caiff hyfforddiant gorfodol a statudol staff ei fonitro bob wythnos ar ffurf taenlen a hefyd gan ddefnyddio'r Cofnod Staff Electronig. Rheolwr y Ward a'r Uwch Nyrs sy'n gyfrifol am wneud yn siwr bod y staff yn gallu sicrhau bod eu hanghenion hyfforddi yn cydymffurfio.</p>	<p>Uwch Nyrs a Rheolwyr Wardiau</p>	<p>ac aciwtedd.</p> <p>Terfyn amser treigl o ganlyniad i ddyddiadau cydymffurfio.</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Clare Walters

**Teitl swydd:** Pennaeth y Gwasanaeth

**Dyddiad:**